

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

30 Ionawr 2019

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.25p.m.)

## 1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Evans, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd R Owens.

## 2. Datgan Buddiannau

Dyweddodd y Cynghorydd P Baker bod ganddo fuddiant personol yn Adroddiad 06/19 (Strategaeth a Ffeirir gan Gyngor Sir Penfro, Cynllun Datblygu Lleol 2) gan mai ef yw Aelod Cabinet Cyngor Sir Penfro ar gyfer Cynllunio a'r Seilwaith.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28<sup>ain</sup> o Dachwedd 2018 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Gan gyfeirio at Gofnod 6 (Maniffesto leuenctid Europarc), dywedodd Mr AE Sangster mai'r argymhelliad oedd i nodi a chefnogi egwyddorion y Maniffesto leuenctid ac i ystyried y camau nesaf a'r camau gweithredu. Cytunodd yr Aelodau i gynnwys y newid.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 28<sup>ain</sup> o Dachwedd 2018 cyn belled â bod y newid uchod yn cael ei gynnwys.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion

(a) Adroddiad diweddar ar y bwriad i amrywio'r Gorchymyn Meysydd Parcio sydd eisoes yn bodoli yn barod ar gyfer dechrau tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2019 (gweler Cofnod 10)

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y Cofnod uchod, gan ddweud ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Swyddogion Cyngor Sir Penfro ac Aelodau'r Cabinet oedd o'r farn nad oedd digon o eglurder yn y broses a gymerwyd gan yr Awdurdod. Gan mai'r Cyngor Sir oedd yr Awdurdod Priffyrdd,



roedd wedi cytuno i ddod â'r mater yn ôl i'r Aelodau i'w ystyried ymhellach o ran eglurder.

Aeth rhagddo i ddweud bod dau gais wedi dod i law oddi wrth Gyngorau Cymuned yn gofyn am i'r gwaith o reoli'r maes parcio yn eu hardal hwy gael ei drosglwyddo iddynt hwy. Byddai'r ddau fater hyn yn cael eu dwyn gerbron yr Aelodau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod fis Mawrth gyda'r nod o ddod â'r Gorchymyn diwygiedig gerbron cyfarfod yr Awdurdod fis Mai.

#### **NODWYD.**

(b) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2019/20 (gweler Cofnod 14)

Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi tynnu sylw at y mater o ad-dalu treuliau, gan bwysleisio'r mater o ddiffyg cydraddoldeb. Gan ymateb i sylwadau gan yr Aelodau ynglŷn â threthu treuliau'r Aelodau, dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn ymwybodol bod Parc Cenedlaethol y Cairngorms yn edrych ar yr opsiynau yn hyn o beth, a bod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd ar hyn o bryd wedi cyflwyno achos prawf. Hefyd roedd wedi codi'r mater mewn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru, a chadarnhaodd nad oedd y mater wedi'i anghofio.

#### **NODWYD.**

### **5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Roedd y Cadeirydd wedi mynychu dau gyfarfod galw heibio a gynhaliwyd yn Ninbych-y-pysgod ac Abergwaun i'r unigolion hynny oedd â diddordeb mewn gwneud cais i ddod yn Aelod o'r Awdurdod. Hefyd yn bresennol oedd y Prif Weithredwr, Libby Taylor (Rheolwr Gwasanaethau Parcmyn) a dau swyddog o Lywodraeth Cymru. Roedd nifer dda wedi dod ynghyd yn y ddau ddigwyddiad, ac roedd y rhai a fynychodd yn bobl o'r radd flaenaf.

#### **NODWYD.**

### **6. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried neu er gwybodaeth:

- (a) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2018 ac ar 5 Rhagfyr 2018;
- (b) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018;
- (c) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2018, a'r



(d) Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2018.

## **NODWYD.**

- 7. Adolygu Disgresiynau Cyflogwyr o ran Gronfa Bensiwn Dyfed**  
Estynnwyd croeso i Mr Matthew James o Gronfa Bensiwn Dyfed i'r cyfarfod. Dywedodd Mr James bod Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2018 wedi'u cyflwyno ar 14 Mai 2018. O ganlyniad, roedd gofyn i bob cyflogwr Cynllun adolygu eu polisïau fel cyflogwr, a bod y newidiadau arfaethedig i bolisïau cyfredol yr Awdurdod ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau eu bod wedi cymryd cyngor gweinyddwyr y Gronfa Bensiwn a bod mecanwaith ar waith lle roedd yn rhaid i gyfnod o fis fynd heibio cyn y gallai unrhyw newidiadau i bolisïau ddod i rym. Byddai hyn yn galluogi i aelodau'r staff herio unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd na fyddai unrhyw newidiadau a wneir gan yr Awdurdod yn wahanol i'r hyn a wneir gan awdurdodau lleol eraill. Dywedodd Mr James wrth yr Aelodau bod hyn yn ymarferiad yr oedd yn rhaid i bob awdurdod lleol ei wneud. Ychwanegodd y byddai gweinyddwyr y Gronfa Bensiwn yn delio ag actiwari'r Gronfa, ac y byddai'r adroddiad prisio ar gael fis Chwefror 2020. Ychwanegodd y byddai cyfraddau'r Awdurdod yn cael eu hamrywio yn unol â'r gwerthusiad, ond bod pob un o'r polisïau yn anelu at fod yn gost niwtral i'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r disgresiynau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod o ran y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, fel y nodwyd yn Atodiad B oedd ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

- 8. Oriol y Parc – Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

Gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) newydd dros gyfnod o bum mlynedd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Amgueddfa Cymru (ACNMW).

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr o'r farn bod y bartneriaeth wedi bod yn un gadarnhaol iawn gyda lefel uchel o gydweithio ac ymddiriedaeth. Aeth rhagddo i gyflwyno Mr Ashley McAvoy o ACNMW i roi cyflwyniad.

Dywedodd Mr McAvoy bod y bartneriaeth yn un bwysig iawn, gan gynyddu'r nifer sy'n ymweld â rhaglen Oriol y Parc o arddangosfeydd, ac uchafbwynt allweddol i hyn oll oedd y cysylltiad ag Oriol y Tate. Gofynnodd am barhau â'r gefnogaeth i ganlyniadau a rennir, i hyrwyddo



Brand Cymru, Oriol y Parc, dyfeisiau dysgu, ac i'r diwydiant creadigol. Ychwanegodd bod ymagwedd mwy strwythuredig wedi rhoi mynediad i gasgliad yr Amgueddfa yn ei gyfanrwydd gyda mwy o ffocws ar gyflawni yn erbyn dibenion yr Awdurdod.

Un elfen newydd yn y CLG oedd ymestyn y bartneriaeth i gynnwys darparwyr diwylliannol eraill yn yr ardal. Roedd wedi mynychu lansiad Oriol Glan yr Afon yn Hwlfordd, a byddai'n ymchwilio i'r cyfleoedd o uno Oriol y Parc ac Oriol Glan yr Afon unwaith y byddai'r CLG diwygiedig yn ei le ac wedi'i ail-lansio. Dywedodd ei bod yn bleser gweithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a staff Oriol y Parc dros y 9 mis diwethaf a'i fod yn edrych ymlaen at weithio gyda hwy yn y dyfodol.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod y partneriaethau hyn yn bwysig iawn ond byddent wedi dymuno gweld gwerthuso mwy manwl i weld a yw'r disgwyliadau yn cael eu gwireddu. Hefyd roeddent o'r farn y gallai fod mwy o gyfleoedd i'r elfen manwerthu a masnachu, ac y gallai hyn fod o fudd i'r ddwy ochr. Cadarnhaodd Mr McAvoy nad oedd gwerthuso wedi bod yn un o'u cryfderau hyd yn hyn ac y byddai hyn yn derbyn sylw. Roedd angen datblygu ymwybyddiaeth o fewn y bartneriaeth o'r gynulleidfa sy'n ymweld ag Oriol y Parc. Roedd mesur presenoldeb ac adeiladu ar hyn yn allweddol. Oherwydd bod cyllid yn fater heriol yn y sector cyhoeddus, roedd ACNMW wedi'i hannog i ddatblygu'n fasnachol, a byddent yn gweithio tuag at hynny gydag Oriol y Parc.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod yr arddangosfeydd yn elfen bwysig iawn o'r bartneriaeth, ond mater oedd yn peri pryder iddynt oedd bod y cytundeb newydd ond yn cynnwys un arddangosfa man lleiaf, a barnent na fyddai hynny yn cael y gwerth gorau allan o'r bartneriaeth. Barnwyd y byddai arddangosfa proffil uchel yn annog pobl i ymweld, ond ni fyddai pobl leol yn ymweld fwy nag unwaith. Hefyd roedd yr Aelodau yn gofyn am fwy o wybodaeth am yr amodau benthyciad a'r costau safonol o'i gymharu â'r cytundeb blaenorol. Eglurodd Mr McAvoy bod y costau yswiriant ac ati a'r amodau yr un peth ag o'r blaen. Ychwanegodd bod yr oriel yn ased oedd yn berchen i'r Awdurdod, felly rhaid oedd i'r ddarpariaeth sylfaenol gael ei chynnwys yn y cytundeb.

Aeth ymlaen i ddweud nad oedd ACNMW yn gallu cynnal y nifer presennol o arddangosfeydd ond eu bod yn canolbwyntio ar gynyddu safon yr arddangosfeydd. Lle na fydd ond un arddangosfa, byddent yn edrych i adnewyddu ac ychwanegu ati i gael pobl i ddychwelyd. Barnai y byddai cyfuno adnoddau a chreu pontydd yn lleol yn rhoi gwell gwerth am arian lle na fyddai'r naill ochr na'r llall ar eu colled.

Roedd yr Aelodau yn dymuno cael sicrwydd y byddai pob arddangosfa yn cael eu hadnewyddu neu bod elfennau yn cael eu newid er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr. Atebodd Mr McAvoy drwy ddweud bod rhai o



arddangosfeydd mwyaf poblogaidd yr Amgueddfa yn canolbwyntio ar deuluoedd ac arddangosfeydd hirdymor. Byddent yn dymuno symud i fodel o gael rhaglen dros 3 blynedd o weithio gyda'r Amgueddfa i sicrhau bod yr arddangosfa wedi'i dylunio ar gyfer yr ardal. Dywedodd bod lleoliad Oriol y Parc yn ddeniadol iawn i orielau cenedlaethol a'u bod yn gobeithio ehangu ar hynny.

Dywedodd un Aelod bod y bartneriaeth yn fater sensitif o gadw'r ddysgl yn wastad, ac er bod pwysau ar ACNMW, roedd pwysau hefyd ar yr Awdurdod. Gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r balans yn gorbwyso ac yn rhoi mwy o bwysau ar yr Awdurdod. Barnwyd y byddai un arddangosfa y flwyddyn yn ei gwneud yn anodd ymgysylltu â chynulleidfaoedd gwahanol a thicio pob bocs, a bod hyn yn fater pryder. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cefn Gwlad, Cymunedol ac Ymwelwyr bod yr Awdurdod bellach wedi'i wreiddio'n fwy corfforaethol gydag ACNMW. Roedd y bartneriaeth yn rhoi mwy o gyfleoedd i farchnata gofod yr oriel a chael gwrthrychau celf uchel eu bri i Oriol y Parc. Roedd yr Aelodau o'r farn bod angen i swyddogion sicrhau bod y gwerthuso yn digwydd wrth i'r bartneriaeth fynd rhagddi gan fod gwerthuso yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Awdurdod ar gyfer symud ymlaen. Atebodd y Cyfarwyddwr y byddai Pwyllgor Adolygu Gweithredol yr Awdurdod yn derbyn adroddiadau ar y camau ymlaen yn erbyn y mesurau ar gyfer y bartneriaeth. Cadarnhaodd Mr McAvoy bod trafodaethau eisoes ar y gweill ynglŷn ag eitemau penodol mewn casgliadau yn cael eu harddangos yn yr ardaloedd lle'r oeddent wedi dod yn wreiddiol.

**PENDERFYNWYD** bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd dros 5 mlynedd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar gywiro'r gwallau teipio.

## **9. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2019/20 a'r Rhagamcanion ar gyfer 2020/21 i 2024/25**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Prif Swyddog Ariannol bod gwall teipio yn nheitl yr adroddiad ac y dylai fod wedi darllen 2024/25; nodwyd hyn yn briodol.

Aeth rhagddo i ddweud bod yr adroddiad yn nodi'r cyllidebau Refeniw a Chyfalaf drafft ar gyfer 2019/20 a'r rhagamcanion am 2020/21 i 2024/25, yr ardoll ddrafft 2019/20 ar Gyngor Sir Penfro, y Dangosyddion Materion Ariannol ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a'r Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20. O ran y cyllidebau ar gyfer 2019/20, roedd yr adroddiad yn nodi strategaeth cyllideb yr Awdurdod a'r rhagdybiaethau allweddol oedd yn sail i'r cyllidebau, fel yr oedd yr Aelodau wedi'u trafod yn flaenorol yn y gweithdai ar baratoi cyllideb.



### Cyllideb Refeniw 2018/19 a Chyllideb Refeniw Drafft 2019/20

O edrych yn ôl ar gyllideb y flwyddyn flaenorol, dywedwyd bod y gostyngiad o 5% yng ngrant craidd y Parc Cenedlaethol wedi'i adfer fis Gorffennaf 2018, gan olygu cynnydd o £145,000 i'r cyllid craidd. Fodd bynnag, oherwydd amseriad hyn, roedd yr Ardoll o Gyngor Sir Penfro wedi parhau ar y lefel gyllido gychwynnol. Roedd rhagamcanion refeniw yn dangos gweddill o £200,000, yn llai o'r Gwariant Cyfalaf a ariennir o'r Gronfa Gyffredinol o £24,000. O ganlyniad, roedd disgwyl i falans y Gronfa Wrth Gefn gynyddu o £1,006,000 i £1,182,000 ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018/19.

Aeth y Prif Swyddog Ariannol â'r Aelodau drwy'r adroddiad, gan nodi – er ei fod yn croesawu'r newyddion na fyddai'r grant a'r ardoll i'r Parc Cenedlaethol yn newid o lefel 2017/18, roedd yn werth nodi bod cyfanswm y gostyngiad ers 2013/14 mewn termau arian parod wedi bod yn £783,000. Aeth yr adroddiad ymlaen i ddangos effaith grant llinell wastad ar gyllideb yr Awdurdod dros y 5 mlynedd nesaf, oedd yn dangos diffyg blynyddol yn 2020/21 o £238,000 ac yn codi i £718,000 erbyn 2024/25. Hefyd roedd wedi gwneud dadansoddiad sensitifrwydd i'r hyn fyddai cyllideb refeniw yr Awdurdod pe bai gostyngiad o 5% yn y cyllid yn cael ei wneud. Roedd y model o ragamcanion y gyllideb oedd yn deillio o'r dadansoddiad hwn yn dangos diffyg o £435,000 yn 2020/21 ac yn codi i £1,426,000 yn 2024/25.

Aeth rhagddo i ddweud bod yr Awdurdod wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd drwy wneud arbedion sylweddol yn y costau gweithredu, a thrwy gynyddu incwm o ffynonellau eraill. Roedd hyn eto yn cael ei gyflwyno yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, ynghyd â chyllideb refeniw gryno a mwy manwl ar gyfer 2019/20.

Hefyd roedd yr adroddiad yn nodi'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2019/20, oedd yn rhagamcanu gwariant o £1,142,900, y byddai rhywfaint ohono yn cael ei ariannu o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, y gronfa wrth gefn gyffredinol, derbyniadau cyfalaf a grantiau allanol eraill.

O ran cronfeydd wrth gefn a balansau ariannol, rhagwelwyd y byddai'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn codi ar ddiwedd 2018/19 i £1,182,000 ac wedi hynny, o ganlyniad i ariannu rhywfaint o'r rhaglen gyfalaf, byddant yn gostwng i £1,167,000 erbyn diwedd 2019/20. Hefyd, roedd gwaredu tir yn Sageston wedi cynyddu'r gronfa wrth gefn o dderbyniadau cyfalaf i £653,000 ar ddiwedd 2018/19, er bod disgwyl i hyn ostwng i £354,000 erbyn diwedd 2019/20.

Daeth y Prif Swyddog Ariannol â'i adroddiad i ben drwy nodi ei fod yn rhagweld y bydd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £2.7m ar ddiwedd 2019/20. Holodd yr Aelodau am oblygiadau yr adolygiad o swyddogaethau o ran costau. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr



Awdurdod yn parhau yn ymrwymedig i gynnal y cyfryw adolygiad, ond yn y tymor hirach. Ychwanegodd bod yr Awdurdod wedi ymgynghori'n ddiweddar â'r staff ynglŷn â newidiadau arfaethedig y Cyd-Gyngor Cenedlaethol i'r strwythur cyflogau ac nad oedd yr ymarferiad wedi codi unrhyw sylwadau negyddol. Rhaid oedd gweithredu'r newidiadau hyn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelodau, dywedodd y Prif Swyddog Ariannol bod y brydles ar safle Canolfan Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod i ddod i ben fis Rhagfyr 2019. Roedd yr Aelodau yn falch o weld y Prif Swyddog Ariannol yn ôl ar ôl absenoldeb salwch ac yn ei ganmol am reoli adnoddau'r Awdurdod dan amgylchiadau anodd.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cyllideb ddrafft 2019/20 yn amodol ar nodi nad oedd Grant y Parc Cenedlaethol/Ardoll wedi'i gadarnhau hyd yn hyn, a nodi'r rhagamcanion ariannol ar gyfer 2020/21 i 2024/25.

#### Yr Ardoll ar Gyngor Sir Penfro

Atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid yr Aelodau bod Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, isadran 3, yn pennu'r modd o gyhoeddi'r ardoll i'w chodi ar Gyngor Sir Penfro. Roedd y datganiad canlynol yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn. Dywedodd bod rhywfaint o newid gan fod y grant Parc Cenedlaethol yn £600,000 yn is na'r disgwyl, a chanlyniad hynny oedd cael effaith ar yr ardoll.

#### Ardoll ar Gyngor Sir Penfro



Rhaid i'r Awdurdod awdurdodi codi ardoll o £984,885 oddi wrth Gyngor Sir Penfro yn unol ag Adran 71 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 a Rheoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru) 1995 OS 1995 Rhif 3019 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Ardollau)(Cymru)(Diwygio) 1996:

- y swm fydd ei angen i dalu am wariant yr Awdurdod yn y flwyddyn dan sylw yn y cyfrif Refeniw yw £5,627,897
- gwneud y ddarpariaeth sy'n briodol i dalu am hapddigwyddiadau, a'r gwariant hwnnw i'w dalu o'r Cyfrif Refeniw £Dim
- y swm sydd ei angen i sicrhau bod gweddill digonol gan yr Awdurdod yn ei Gyfrif Refeniw £Dim



• y swm sydd ei angen ar yr Awdurdod i dalu am unrhyw ddiffyg a ddygwyd ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol		£Dim
		-----
Is-gyfanswm YN LLAI O		£5,627,897
• Grant Adran 72	£2,954,655	
• Incwm a gredydir i'r Cyfrif Refeniw	£1,688,357	
• symiau eraill heb eu cynnwys uchod sy'n debygol o fod ar gael yn ystod y flwyddyn	-	£4,643,012
	-----	-----
<b>Yr ardoll sy'n ofynnol</b>		<b><u>£984,885</u></b>

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn awdurdodi ardoll o £984,885 (neu swm priodol arall a benderfynir ar ôl derbyn cadarnhad am y cyllid net a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru) ar Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn 2019/20.

Dangosyddion Cod Materion Ariannol a'r Strategaeth Buddsoddi 2019/20  
Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried Cod Materion Ariannol CIPFA wrth bennu cyllidebau blynyddol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cyngor y Prif Swyddog Ariannol wrth bennu rhaglen o fuddsoddi cyfalaf sy'n fforddiadwy, yn ddarvoudus ac yn gynaliadwy, fel y nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.

Aeth yr adroddiad ymlaen i gyflwyno Strategaeth Fuddsoddi yr Awdurdod ar gyfer 2019/20 oedd yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol ac yn ategu'r system fenthycy ddarvoudus.

Dywedodd yr Aelodau eu bod gwerthfawrogi'n fawr bod yr adroddiad wedi'i gyflwyno'n eglur.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn **MABWYSIADU'R** Dangosyddion Materion Ariannol, fel y'u cyflwynwyd, ac yn **CYMERADWYO'R** Strategaeth Fuddsoddi a'r Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20.

## 10. Cynllun Corfforaethol 2019/20

O dan y Mesur Llywodraeth Leol, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Roedd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi cynllun yn dangos sut y byddai'n cyflawni tuag at y nodau llesiant a sut yr oedd wedi cymhwyso'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy





yn ei waith. Ar hyn o bryd, nid oedd yn glir eto a fyddai'n ofynnol i'r Awdurdod barhau i gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, felly er mwyn lleihau'r angen am ddyblygu, bwriad y cynllun corfforaethol drafft a gyflwynwyd gerbron yr Aelodau oedd cyflawni gofynion y ddau ddarn o ddeddfwriaeth drwy ddatblygu amcanion llesiant yr Awdurdod allai hefyd gael eu hystyried yn amcanion gwella.

Roedd y Cynllun a gyflwynwyd yn dal i fod yn gynllun ar ffurf drafft. Byddai fersiwn derfynol y cynllun corfforaethol yn cael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau i'w gymeradwyo fis Mawrth. Roedd gwall teipio ar dudalen 125 (Maes Gwella: Twristiaeth Gynaliadwy) ddylai ddarllen 7,300 o bobl yn cael eu cyflogi yn y sector Twristiaeth yn Sir Benfro.

Roedd yr Aelodau am longyfarch y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth ar y darn o waith medrus, realistig a nodedig a gynhyrchwyd. O ran y camau gweithredu oedd yn flaenoriaeth, roedd un Aelod o'r farn mai un maes y dylid talu sylw iddo oedd materion morol; roedd y Cynllun Rheoli wedi mynd i fanylion am gyflwr yr afonydd ond heb dalu sylw i effaith yr afonydd ar yr ardaloedd arfordirol. Dywedodd y Swyddog bod y mater hwn ar hyn o bryd o dan y pennawd Byd-eang ond gellid ei symud i adran Cydnerthedd y cynllun, a byddai hynny yn cael ei ystyried wrth edrych ar ddiwygiadau i'r cynllun drafft. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod cysylltiad clir rhwng hyn â'r Cynllun Rheoli a'r Cynllun Corfforaethol ond gellid datblygu hyn ymhellach.

Nododd yr Aelodau bod yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i ddelio â materion gorfodaeth wedi cymryd amser hirach. Eglurodd y Swyddog bod yr ôl-groniad o achosion wedi cael effaith ar y ffigurau, ond roedd swyddogion yn gweithio ar glirio'r ôl-groniad, felly y gobaith oedd y gwelir ffigurau gwell y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD** bod y swyddogion yn cymryd i ystyriaeth y sylwadau a fynegwyd gan yr Aelodau yn y cyfarfod a bod drafft terfynol o'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod.

#### **11. Adroddiad Cwmpasu Drafft ar Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2020-2024**

Cyflwynodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc Adroddiad Cwmpasu drafft ar Arfarniad o Gynaliadwyedd i'r Aelodau ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (2020-2024). Y gobaith oedd, yn amodol ar unrhyw sylwadau a wnaed yn y cyfarfod, y byddai'r Adroddiad a'i atodiadau yn cael eu cymeradwyo ar gyfer ymgynghori am gyfnod o 8 wythnos. Dywedodd y Swyddog y gallai gymryd ymholiadau'r Aelodau i'w hystyried fel rhan o'r Ymgynghoriad. Ychwanegodd mai prif bwrpas yr Arfarniad o Gynaliadwyedd oedd profi pa mor dda y byddai'r Cynllun yn perfformio.



Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau am gynnwys y ddogfen, gan gynnwys hygyrchedd, llygredd aer, teithio a'r defnydd a wneir o geir. Mynegodd un Aelod bryder ynglŷn ag effaith ail gartrefi ar gymunedau lleol. Barnwyd bod angen cynnal gweithdy ar y pwnc hwn. Roedd Aelod arall o'r farn mai da o beth fyddai cysylltu â'r Parciau Cenedlaethol eraill i drafod y mater hwn.

**PENDERFYNWYD** bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r Adroddiad Cwmpasu drafft a'r atodiadau cysylltiedig i Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ar gyfer ymgynghori.

## **12. Y Strategaeth a Ffefir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 a Dogfennau Ategol Cyngor Sir Penfro**

Dywedodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc y byddai Cynllun Datblygu Lleol presennol Cyngor Sir Penfro yn dod i ben yn 2021. Wrth baratoi ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd 2, roedd y Cyngor Sir wedi cyhoeddi ei Strategaeth a Ffefir ar gyfer ymgynghori. Roedd yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn cyflwyno ymateb arfaethedig y swyddogion i'r ymgynghoriad hwn. Dywedodd wrth yr Aelodau bod swyddogion y Cyngor Sir wedi ymgysylltu â swyddogion yr Awdurdod ar y gwaith o baratoi'r Strategaeth a Ffefir a bod y cydweithio hwn wedi mynd yn dda. Gofynnodd am i'r ymateb drafft gael ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD** bod y sylwadau a nodir yn Atodiad A ar y Strategaeth a Ffefir ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Penfro yn cael ei gymeradwyo fel ymateb Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i'r ymgynghoriad.

## **13. Aelodaeth o Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro**

Eglurodd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy mai diben yr adroddiad oedd penodi Aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i wasanaethu ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro am y tymor 2019-2021.

Datganodd y Cynghorydd Paul Harries ddiddordeb fel aelod o'r Fforwm ond nodwyd bod ei dymor eisoes wedi dod i ben. Enwebodd yr Aelodau y Cynghorydd Paul Harries am dymor pellach yn y swyddogaeth hon.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Harries i wasanaethu ar y Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro am y cyfnod 2019-2021.

## **14. Cynorthwyo a Datblygu Aelodau**

Diben yr adroddiad oedd sefydlu Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau i lywio'r Rhaglen Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. Roedd Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer y Pwyllgor ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw.



Roedd yr Aelodau yn gefnogol iawn i'r cynnig ac yn teimlo'n hyderus y gallent wneud cais ymlaen llaw am statws Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau. Roedd angen cael 9 Aelod ar y Pwyllgor, 3 Aelod Llywodraeth Cymru a 6 Aelod y Cyngor Sir. Er bod Mr Archer yn agosáu at ddiwedd ei dymor ar yr Awdurdod, barnwyd y byddai ei brofiad yn werthfawr am weddill ei dymor.

Roedd un Aelod yn pryderu am yr amser a'r arian fyddai hyn o bosibl yn ei olygu. Hysbyswyd yr Aelodau bod llawer o waith eisoes yn cael ei wneud ac y byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal pryd bynnag y bo modd ar ddiwrnod pan gynhelir cyfarfodydd eraill. Awgrymodd Aelod arall y dylid diwygio'r Cylch Gorchwyl i gynnwys y cylch gwaith canlynol:

"Hyrwyddo'r gwerth i bob Aelod, ac annog yr Aelodau i gymryd rhan yn y broses er mwyn sicrhau statws Siarter Uwch."

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) sefydlu Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, sy'n cynnwys yr Aelodau canlynol:

Mr A Archer, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams;

- (b) diwygio Cylch Gorchwyl 3 i ddarllen:

"Datblygu cais am statws Siarter Uwch Siarter Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau ac argymhell y cais i'r Awdurdod cyn ei gyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru", ac

- (c) ychwanegu'r cylch gwaith canlynol at y Cylch Gorchwyl:

"Hyrwyddo'r gwerth i bob Aelod, ac annog yr Aelodau i gymryd rhan yn y broses er mwyn sicrhau statws Siarter Uwch".

